**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH** |
| **SUBJECT:** | **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2022 DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2022** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Sarah King (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 5** | **CYLLIDEB REFENIW 2022/2023**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y setliad llywodraeth leol darpariaethol ar gyfer 2022/23 a'i effaith ar gyllideb y Cyngor. Mae hefyd yn amlinellu'r gyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2022/23 ac yn ceisio cymeradwyaeth i lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.<br><br>Ychwanegodd y Prif Swyddog Adnoddau bod y Cyngor wedi cytuno ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol ddiwygiedig ym mis Tachwedd 2021 a dywedodd fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf i Aelodau am y gyllideb yn dilyn cyhoeddi setliad llywodraeth leol darpariaethol ar gyfer 2022/.23.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad ymhellach a rhoddodd drosolwg o'r meysydd a gynhwysir yn yr adroddiad fel sy'n dilyn:-<br><br>• Sefyllfa Cyllid Allanol Cronnus (AEF) Cenedlaethol<br>• Sefyllfa AEF Blaenau Gwent<br>• Cyllid AEF o gymharu â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol<br>• Pwysau Cost a Thwf<br>• Triniaeth Grantiau yn trosglwyddo i'r Setliad | |

- Cyllideb Ysgolion Unigol
- Bwlch cyllid diwygiedig
- Rhaglen Pontio'r Bwlch
- Cyllideb Refeniw 2021/22
- Cronfeydd wrth Gefn Refeniw Cyffredinol 2021/22

I gloi, cyfeiriodd y Prif Swyddog Adnoddau at drafodaethau yn y Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2022 a dywedwyd fod Aelodau wedi derbyn argymhellion 3.1.1. i 3.1.6, fodd bynnag roedd y Pwyllgor wedi penderfynu gohirio penderfyniad yng nghyswllt 3.1.7 a 3.1.8 tan gyfarfod o'r Cyngor llawn a drefnwyd ar gyfer 17 Chwefror 2022.

Nododd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi manylion cyllideb derfynol gadarnhaol i'w gosod gan y weinyddiaeth hon. Roedd yn falch y gallodd yr Awdurdod lunio cyllideb gytbwys a chyfreithiol. Ni fu unrhyw reswm eto eleni i gymryd arian o'r cronfeydd wrth gefn, ac roedd hyn wedi arwain at i lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor gael eu codi i lefel addas.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid cytuno ar argymhellion 3.1.1 i 3.1.6 a bod argymhellion 3.1.7 a 3.18 yn cael eu penderfynu gan y Cyngor llawn ar 17 Chwefror 2022. Eiliwyd y cynnig hwn.

Roedd yr Aelod Gweithredol Addysg yn falch iawn gyda'r swm mawr o arian a roddir i ysgolion a gaiff ei basportio i ysgolion a fyddai'n cael ei groesawu'n fawr gan benaethiaid ysgolion ac a fyddai o fudd mawr o blant a phobl ifanc Blaenau Gwent.

Croesawodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd y gefnogaeth i Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb.

Ychwanegodd yr Arweinwyr fod Aelodau Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ill dau wedi bod yn eiriolwyr gwych yn eu priod feysydd a dywedodd y cafodd yr ymrwymiad a roddwyd yn 2017 i ddiogelu a chefnogi Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ddangos yn ystod cyfnod swydd y weinyddiaeth hon.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y dilynol:-

3.1.1 argymell cyllideb refeniw 2022/23 i'r Cyngor;

3.1.2 rhoddwyd sylwadau ar y deilliannau o fewn setliad

| | | |
|---|---|---|
| | darpariaethol y Grant Cynnal Ardrethi (RSG) a nodi'r potensial am newid pellach yn setliad terfynol y RSG;<br><br>3.1.3 rhoddwyd sylwadau ar y deilliannau o fewn setliad darpariaethol RSG Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac effaith hynny ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br><br>3.1.4 argymell i'r Cyngor yr eitemau pwysau cost a thwf (cyfanswm o £4m) a ddynodir yn Atodiad 2 i'w cynnwys yn y gyllideb;<br><br>3.1.5 argymell i'r Cyngor y dylid pasportio'r grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad o £265,000 i'r gwasanaethau perthnasol;<br><br>3.1.6 argymell i'r Cyngor gynnydd o £3.91m sy'n gyfartal â chynnydd o 8.4% i'r Gyllideb Ysgolion Unigol;<br><br>3.1.7 bod unrhyw beth a gyflawnir gan gynigion Pontio'r Bwlch sy'n fwy na'r gofynion cyllideb yn y flwyddyn yn cael eu trosglwyddo i gyllideb wrth gefn i gefnogi cynnydd cyflogau yn ystod 2022/23 yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol o £0.95m a £1.5m i'w drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn Cydnerthedd Ariannol yn cael ei ohirio i'w ystyried yn y Cyngor; a<br><br>3.1.8 bod cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4% ar gyfer 2022/23 yn unol â thybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei ohirio i'w ystyried yn y Cyngor. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | |
| **No. 6** | **DATBLYGU CYNLLUN CYDWEITHREDU RHWNG CAERFFILI/BLAENAU GWENT AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU CYFREITHIOL AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL PLANT**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod yr wybodaeth sy'n cynnwys manylion ynghylch materion busnes/ariannol personau heblaw'r Awdurdod yn cael ei dderbyn (Opsiwn 1). | |